**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**National Assembly for Wales**
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus Alun Cairns AS
Ysgrifennydd Gwladol Cymru
Swyddfa Cymru
Gwydyr House
Whitehall
Llundain
SW1A 2NP

18 Awst 2016

Annwyl Alun

**Bil Cymru**

Fel y gwyddoch, rydym wedi bod yn ceisio trefnu i gymryd tystiolaeth gennych chi am Fil Cymru.

Roedd yn galonogol clywed eich ymateb i'n gwahoddiad yn ystod y ddadl ar Araith y Frenhines yn y Cyfarfod Llawn ym mis Gorffennaf. Hoffem drefnu dyddiad sy'n dderbyniol i chi a ninnau, er mwyn gwella'r ddeddfwriaeth bwysig hon.

Mae fy mhwyllgor wedi bod yn dilyn yn ofalus y broses o graffu ar y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin. Wrth wneud hyn, rydym wedi bod yn monitro a yw'r materion a gododd rhanddeiliaid wedi'u hystyried yn ddigonol. Rydym yn credu bod nifer o faterion allweddol y byddai'n fuddiol eu trafod ymhellach yn uniongyrchol â chi.

Mae natur y broses graffu yn San Steffan yn golygu nad yw rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru wedi cael cyfle i gyfrannu'n uniongyrchol ac yn gyhoeddus at y drafodaeth seneddol ar y Bil. Fodd bynnag, maent wedi gallu gwneud hyn fel rhan o'n gwaith o graffu'n fanwl ar y Bil, a hoffem sicrhau bod eu sylwadau'n cael eu hystyried wrth ddatblygu fersiwn derfynol o'r Mesur. Rydym yn gwybod bod rhanddeiliaid wedi chwarae rhan hanfodol yn y broses o fireinio'r Bil drafft, ac

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

mae'n amlwg bod rhai o'r gwelliannau yn y Bil presennol yn seiliedig ar eu cyfraniadau nhw'n uniongyrchol. Rydym yn credu y gellid gwella'r Bil ymhellach pe baech yn siarad â ni'n gyhoeddus.

Er ein bod yn croesawu'ch cynnig i siarad â'r Pwyllgor yn breifat, o ystyried bod hwn yn ddarn o ddeddfwriaeth gyfansoddiadol mor arwyddocaol a fydd, gobeithio, yn setliad cryf a pharhaol, rydym yn credu ei bod yn bwysig bod ein trafodaethau'n cael eu cynnal yn gyhoeddus. Yn ogystal â sicrhau bod y broses graffu yn dryloyw, byddai'n cadw at ymrwymiad y cyn Ysgrifennydd Gwladol Cymru i weithio gyda'n gilydd i sicrhau bod y Bil yn iawn.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'n casgliadau'n gynnar ym mis Hydref, gan gymryd tystiolaeth gennych chi cyn hynny. Fel y nodwyd eisoes, gallwn fod yn hyblyg er mwyn cyd-fynd â'ch dyddiadur chi ac, os oes angen, gallwn gymryd tystiolaeth drwy gyfrwng fideogynadledda.

Gobeithio y gallwn eich croesawu i'r Pwyllgor ym mis Medi.

Yn gywir

Huw Irranca-Davies

**Huw Irranca-Davies AC**
**Cadeirydd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.